**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID-PO-0146-24

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Mai 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Llywodraeth Cymru, gyda'n partneriaid Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad heddiw ar ehangu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU). Mae'r cyntaf yn ymwneud ag ehangu'r cynllun i ynni o'r sector gwastraff a llosgi gwastraff, ac mae'r ail yn ymwneud â sut y gellid integreiddio technolegau tynnu nwyon tŷ gwydr wedi'u peiriannu, ac a fyddai dulliau tynnu sy'n seiliedig ar natur yn addas ar gyfer y cynllun.

Ym mis Gorffennaf 2023 cadarnhaodd yr Awdurdod ei fwriad i gynnwys ynni o wastraff a llosgi gwastraff yn y cynllun o 2028. Mae hyn yn cynnwys cyfnod pontio o ddwy flynedd ar gyfer y sector rhwng 2026–2028 pryd y bydd allyriadau'n cael eu monitro, eu cofnodi a'u gwirio, heb unrhyw rwymedigaeth i brynu neu ildio lwfansau ETS y DU tan 2028. Mae'r ymgynghoriad heddiw yn rhoi rhagor o fanylion ar sut y bydd yr ehangu hwn yn cael ei weithredu, gan roi eglurder i sbarduno buddsoddiadau mewn datgarboneiddio.

Daw'r ymgynghoriad ar dynnu nwyon tŷ gwydr yn dilyn cyhoeddiad yr Awdurdod, hefyd fis Gorffennaf diwethaf, fod y cynllun yn farchnad hirdymor addas ar gyfer technolegau tynnu nwyon tŷ gwydr. Mae'r cyhoeddiad heddiw yn archwilio sut y gellid integreiddio technolegau tynnu nwyon tŷ gwydr wedi'u peiriannu o'r DU fel Dal Carbon mewn Aer yn Uniongyrchol, lle mae carbon deuocsid yn cael ei sugno o'r aer a'i storio'n barhaol, i ETS y DU. Wrth wneud hynny, mae'n anelu at ysgogi buddsoddiadau yn y technolegau hyn. Mae hefyd yn ystyried ymhellach y sefydlogrwydd, y costau a'r effeithiau posibl ar reoli tir ehangach pe bai technolegau o ansawdd uchel ar gyfer tynnu nwyon tŷ gwydr o goetir yn y DU yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr ymgynghoriad ar wastraff ar agor am wyth wythnos, tan 18 Gorffenaf 2024. Bwriad y cyfnod ymgynghori byrrach hwn yw rhoi amser i gwblhau rhagor o waith paratoi, a galluogi gweithredu'r cynigion erbyn 2026, fel yr ymrwymwyd i wneud yn flaenorol. Bydd unrhyw risg sy'n deillio o'r dull hwn yn cael ei lliniaru gan waith ymgysylltu helaeth i sicrhau cyfranogiad llawn rhanddeiliaid. Bydd yr ymgynghoriad ar dynnu nwyon tŷ gwydr ar agor am 12 wythnos tan 15 Awst 2024.

Bydd yr Awdurdod, ynghyd â swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt i gasglu barn i gefnogi penderfyniadau terfynol ar sut y bydd ETS y DU yn cael ei ehangu. Bydd y diwygiadau hyn i ETS y DU yn gofyn am ddiwygiadau i Orchymyn Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr y DU, felly bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar gynlluniau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

Gyda'i gilydd, bydd yr wybodaeth a gesglir yn amhrisiadwy wrth lywio'r gwaith o ehangu'r cynllun, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi'u cwmpasu o dan derfyn allyriadau'r cynllun. Bydd hyn yn cymell arloesedd, yn sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau, ac yn helpu i sicrhau dyfodol cadarn, cynaliadwy i Gymru.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs